

Cwrs Uwch - Uned Gyfoes

Cwpan y Byd

Geirfa

chwiban(au)	<i>whistle</i>	ceidwad (ceidwaid)	<i>keeper(s)/saviour(s)</i>
		gôl-geidwad	<i>goalkeeper</i>
		dyfarnwr (-wyr)	<i>referee(s)</i>
		eilydd(ion)	<i>substitute(s)</i>
		llymanwr (-wyr)	<i>linesman (-men)</i>
amddiffyn	<i>to defend</i>	crwn	<i>round</i>
camsefyll	<i>to be offside</i>	cynderfynol	<i>semi-final</i>
eilyddio	<i>to substitute</i>	hunllefus	<i>nightmarish</i>
mynnu	<i>to insist</i>	rhagbrofol	<i>preliminary</i>
ymosod	<i>to attack</i>	terfynol	<i>final</i>
		ychwanegol	<i>extra</i>
y bêl gron	<i>the round ball (football)</i>	gêm ail-gyfle	<i>play-off match</i>
cic o'r smotyn	<i>penalty kick (football)</i>	hyd heddiw	<i>to this day</i>
dwyn i gof	<i>to recollect (a memory)</i>	ymhen hir a hwyr	<i>eventually</i>

Cyflwyniad

Am bedwar o'r gloch brynhawn lau y 14eg o Fehefin, bydd cic gyntaf gêm bêl-droed rhwng Rwsia a Sawdi Arabia yn Stadiwm Luzhniki ym Moscow. Dyma gêm gyntaf twrnamaint Cwpan y Byd 2018. Ychydig dros fis yn ddiweddarach, ar y 15fed o Orffennaf, bydd **gêm derfynol** y gystadleuaeth yn cael ei chynnal yn yr un stadiwm. Bydd enillwyr y gêm honno'n codi Cwpan y Byd ac yn cael galw'u hunain yn Bencampwyr y Byd am bedair blynedd - tan y twrnamaint nesaf yn Qatar yn 2022. Dros y mis hwnnw rhwng canol Mehefin a chanol Gorffennaf, bydd 32 o dimau yn chwarae cyfanswm o 64 o gemau mewn 12 stadiwm wahanol yn 11 o ddinasoedd Rwsia. Dros bythefnos gyntaf y gystadleuaeth, bydd tair neu bedair gêm bob dydd a phob un yn cael ei dangos ar deledu'r BBC neu ITV. Bydd dilynwyr y bêl gron yn eu seithfed nef, felly, ond bydd yn fis **hunllefus** i rai sy'n casáu pêl-droed, neu sy'n meddwl bod gormod o chwaraeon ar y teledu.

Siaradwch — Faint o'r twrnamaint byddwch chi'n ei wyllo?

Y bêl gron

Mae'r ymadrodd '**y bêl gron**' yn cael ei ddefnyddio i olygu pêl-droed (y gêm yn ogystal â'r bêl ei hun). Ffurf fenywaidd ar yr ansoddair '**crwn**' ydy '**cron**' ac mae'n treiglo i roi ymadroddion fel '**blwyddyn gron**' a '**tiwn gron**'.

e.e. Mae **blwyddyn gron** wedi mynd heibio ers i fi fod draw i'ch gweld chi.

Yn ogystal â disgrifio cân sy'n mynd rownd mewn cylch, mae ystyr ffigurol i '**tiwn gron**'. Beth ydy'r ystyr hwnnw?

Meddylwch am frawddegau yn cynnwys **blwyddyn gron** a **tiwn gron**.



Gwledydd Cwpan y Byd

Mae'r map isod yn dangos pob gwlad fydd yn cystadlu am Gwpan y Byd yn Rwsia eleni (mewn gwyn). Trafodwch faint o'r 32 o wledydd dych chi'n gallu eu hadnabod ar y map. Peidiwch â phoeni os nad ydych chi'n eu hadnabod nhw i gyd ar hyn o bryd, bydd cyfle i ddod nôl at y map eto.



Map o wefan Statista: <https://www.statista.com/chart/11880/the-32-teams-that-reached-the-2018-world-cup/>

Storm Geirfa – Pêl-droed

Mewn dau funud, meddylwch am gymaint o eiriau ag y gallwch chi sy'n gysylltiedig â pêl-droed.

Wnaethoch chi feddwl am y geiriau canlynol? Dych chi'n gwybod eu hystyr nhw i gyd?

gôl	sgorio	gôl-geidwad	gôl i'w rwyd ei hun
amddiffynnwr	ymosodwr	canol y cae	dyfarnwr
chwiban	cic o'r smotyn	*cerdyn melyn	*cerdyn coch
camsefyll	hanner-amser	sgôr terfynol	eilyddion
llumanwr	torf	asgell	

*carden felen a carden goch yn y De.

Mae'r brawddegau isod yn cynnwys rhai o'r geiriau uchod, neu eiriau sy'n perthyn. Dewiswch y gair mwyaf addas o'r rhestr canlynol i lenwi pob bwlch.

ceidwad	ymosod	amddiffyn	chwiban
rhwyd	terfynol	smotyn	eilydd

1. Robin McBryde ydy _____ y cledd yn yr Orsedd – fo sy'n gyfrifol am gario'r cleddyf yn y seremonïau yn yr Eisteddfod Genedlaethol.
2. Roedd y pysgotwyr wrth eu boddau yn gweld y _____ yn llawn pysgod wrth iddyn nhw ei chodi'n ôl i'r cwch.
3. Cafodd muriau uchel eu codi er mwyn _____ y dref rhag ymosodiadau.
4. Roedd gen i gath ddu gyda _____ bach gwyn ar ei phen.
5. Erbyn i'r dyfarnwr chwythu ei _____ i ddod â'r gêm i ben, roedd Siân wedi sgorio tair gôl.
6. Roedd rhaid i dîm Abertawe _____ yn gryf achos roedd angen iddyn nhw sgorio o leiaf dair gôl.
7. _____ oedd Huw yn y gêm ddydd Sadwrn, ond daeth oddi ar y fainc a sgorio gôl hwyr i'w dîm.
8. Roedd Wrecsam ar ei hôl hi ar yr hanner yn erbyn Caer, ond sgoriodd Siôn Jones dair gwaith yn yr ail hanner a'r sgôr _____ oedd Wrecsam 3, Caer 1.

Siaradwch – Dyma rai cwestiynau am bêl-droed. Meddyliwch am ddau neu dri chwestiwn arall i'w trafod yn eich grŵp.

- Dych chi'n chwarae pêl-droed nawr neu wedi chwarae erioed? Dych chi'n nabod rhywun sy'n chwarae llawer o bêl-droed?
- Dych chi wedi bod i weld gêm bêl-droed ryngwladol erioed? Beth am gêm rygbi, hoci neu ryw gamp arall?
- Dych chi'n deall rheol camsefyll? Allwch chi esbonio'r rheol i'r rhai yn y dosbarth sy ddim yn ei deall?

Y Gwledydd a'r Grwpiau

Dyma enwau'r 32 o wledydd fydd yn cystadlu am Gwpan y Byd yn Rwsia. Mae'r timau'n cael eu rhannu yn wyth grŵp ar gyfer y gemau cyntaf. Trafodwch pa rai o'r baneri isod sy'n perthyn i ba wledydd a gosodwch y timau yn eu lle yn eu grwpiau:

Ariannin	Awstralia	Brasil	Colombia	Costa Rica	Croatia
De Corea	Denmarc	Ffrainc	Gwlad Belg	Nigeria	Yr Aifft
Tiwnisia	Iran	Sawdi-Arabia	Gwlad Pwyl	Gwlad yr Iâ	Lloegr
Meccico	Moroco	Panama	Periw	Portiwgal	Rwsia
Sbaen	Senegal	Serbia	Siapan	Sweden	Wrwgwái
Yr Almaen	Y Swistir				

Cofiwch, os ydych chi'n hyderus:

"Dw i'n siŵr mai baner Rwsia ydy honna/Dw i'n siŵr taw baner Rwsia yw honna."

"Dw i'n gwybod bod Rwsia yn Grŵp A."

Os nad ydych chi mor siŵr:

"Dw i'n meddwl mai baner Panama ydy honna/Dw i'n credu taw baner Panama yw honna."

"Efallai bod Brasil yn Grŵp E."

Grŵp A    	Grŵp B    	Grŵp C    	Grŵp D    
Grŵp E    	Grŵp F    	Grŵp G    	Grŵp H    

Bydd enillydd pob grŵp a'r tîm sy'n dod yn ail yn mynd ymlaen i rownd yr 16 olaf. Yn y rownd honno, bydd enillydd pob gêm yn mynd ymlaen i'r rownd nesaf a'r tîm sy'n colli yn gadael y gystadleuaeth. Felly, bydd rhaid cael enillydd i bob un o'r gemau hynny ac os bydd hi'n gyfartal ar y **chwiban** olaf ar ôl 90 munud, bydd rhaid chwarae hanner awr o amser **ychwanegol**. Os bydd hi'n dal yn gyfartal ar ddiwedd yr amser ychwanegol, bydd cyfres o **giciau o'r smotyn** i ganfod yr enillydd. Yr un fydd y drefn yn rownd yr wyth olaf, wedyn bydd y ddau dîm sy'n ennill yn y rownd **gyn-derfynol** yn mynd ymlaen i chwarae yn y gêm **derfynol** honno yn Moscow. Bydd rhaid i'r ddau dîm sy'n colli yn y rownd gyn-derfynol chwarae yn erbyn ei gilydd i benderfynu pwy sy'n gorffen yn y trydydd safle – gêm nad oes neb eisïau chwarae ynddi hi!

Gemau Cwpan y Byd

Mae manylion y gemau dros bedwar diwrnod cyntaf Cwpan y Byd yn y tabl isod, ond mae rhai bylchau yn eich tabl chi. Holwch eich partner er mwyn llenwi'r bylchau, e.e. Pwy sy'n chwarae yn yr ail gêm ar ddydd Gwener 15 Mehefin? Am faint o'r gloch mae'r gic gyntaf? Ble mae'r gêm yn cael ei chwarae? Ar ba sianel deledu bydd hi?

Partner A

Dyddiad	Lleoliad	Cic Gyntaf (amser Prydain)	Timau	Teledu
---------	----------	-------------------------------	-------	--------

Dydd Iau 14 Mehefin				
------------------------	--	--	--	--

Dydd Gwener 15 Mehefin	Stadiwm Ganolog, Yekaterinburg	1:00pm	Yr Aifft - Wrwgwái	BBC
	Stadiwm Olympaidd Fisht, Sochi	7:00pm	Portiwgal - Sbaen	BBC

Dydd Sadwrn 16 Mehefin				
	Arena Otkrytie, Moscow	2:00pm	Ariannin – Gwlad yr Iâ	ITV
	Stadiwm Kaliningrad, Kaliningrad	8:00pm	Croatia - Nigeria	ITV

Dydd Sul 17 Mehefin				
	Stadiwm Luzhniki, Moscow	4:00pm	Yr Almaen - Meccico	BBC

Gemau Cwpan y Byd

Partner B

Dyddiad	Lleoliad	Cic Gyntaf (amser Prydain)	Timau	Teledu
---------	----------	-------------------------------	-------	--------

Dydd Iau 14 Mehefin	Stadiwm Luzhniki, Moscow	4:00pm	Rwsia – Sawdi Arabia	ITV
------------------------	-----------------------------	--------	----------------------	-----

Dydd Gwener 15 Mehefin				
	Stadiwm Krestovsky, Saint Petersburg	4:00pm	Moroco - Iran	ITV

Dydd Sadwrn 16 Mehefin	Arena Kazan, Kazan	11:00am	Ffrainc - Awstralia	BBC
	Arena Mordovia, Saransk	5:00pm	Periw - Denmarc	BBC

Dydd Sul 17 Mehefin	Arena Samara, Samara	1:00pm	Costa Rica - Serbia	ITV
	Arena Rostov, Rostov	7:00pm	Brasil- Y Swistir	ITV

Ymarferion iaith

1. Ail: darllenwch y brawddegau yma sy'n sôn am **ail gyfle**, **ail olwg** ac **ail blentyndod**.

- a. Wnes i ddim gweithio'n galed yn yr ysgol, ond mae cyrsiau addysg oedolion wedi rhoi **ail gyfle** i fi.
- b. Bydd y dyfarnwr yn gallu defnyddio technoleg fideo er mwyn iddo fe gael **ail olwg** ar rai pethau yn ystod y gemau.
- c. Er fy mod i dros 40 oed, dw i'n casglu sticeri Cwpan y Byd eto eleni – dw i'n teimlo fy mod i'n cael **ail blentyndod**.

Ail-ysgrifennwch y brawddegau nawr ar gyfer personau gwahanol:

- a. Wnaeth hi ddim gweithio'n galed _____

- b. Bydd y dyfarnwyr _____

- c. Er ei fod e _____

2. Hyd heddiw/ ymhen hir a hwyr: darllenwch y brawddegau yma:

- a. Symudais i i'r ardal hon yn 1991 a dw i'n dal i fyw yn yr un tŷ **hyd heddiw**.
- b. Ces i fy ngwers yrru gyntaf dros ddeg mlynedd yn ôl, ond dw i'n dal heb basio'r prawf **hyd heddiw**.
- c. Buon ni'n chwilio am gartref newydd am fisoedd, ac **ymhen hir a hwyr**, gwelon ni'r tŷ delfrydol.

Meddyliwch am rywbeth dych chi'n dal i'w wneud **hyd heddiw**, rhywbeth dych chi'n dal heb ei wneud **hyd heddiw** a rhywbeth ddigwyddodd **ymhen hir a hwyr**:

- a. _____

- b. _____

- c. _____

3. Gwneud tipyn o enw iddo'i hun: darllenwch y frawddeg gyntaf yma a chwblhewch y ddwy nesaf ar yr un patrwm:

Mae e'n chwaraewr da iawn ac mae'n **gwneud tipyn o enw iddo'i hun** y tymor hwn.

Mae hi'n chwaraewraig dda iawn _____

Maen nhw'n chwaraewyr da iawn _____

Straeon Cwpan y Byd

Darllenwch un o'r straeon canlynol gyda'ch partner, wedyn meddyliwch am gwestiynau y gallech chi eu hateb gyda gwybodaeth o'r stori.

1. Cymru yng Nghwpan y Byd

Dim ond unwaith mae Cymru wedi ymddangos yn nhwrnamaint Cwpan y Byd, a hynny yn Sweden yn 1958. Ail oedd Cymru yn eu grŵp ar ddiwedd y gemau **rhagbrofol** oedd i fod i benderfynu pwy oedd yn mynd i Sweden. Ond daeth ail gyfle oherwydd bod timau eraill yn Affrica ac Asia yn gwrthod chwarae yn erbyn Israel. Doedd FIFA ddim yn fodlon i unrhyw dîm chwarae yn y twrnamaint heb ennill eu lle yno mewn gemau rhagbrofol, felly trefnwyd i Gymru chwarae dwy gêm yn erbyn Israel. Enillodd Cymru'r ddwy gêm o ddwy gôl i ddim a chael lle yn y gystadleuaeth yn Sweden.

Yn Sweden, roedd Cymru mewn grŵp gyda Mecsico, Hwngari a'r tîm cartref. Tair gêm gyfartal gawson nhw yn y grŵp, gan orffen yn gyfartal ar bwyntiau â Hwngari. Sweden oedd ar frig y grŵp ac felly ro'n nhw'n cael camu ymlaen yn sicr i rownd yr wyth olaf. Ond, roedd dau yn cael mynd trwodd o bob grŵp a'r drefn ar y pryd, os oedd dau dîm yn gyfartal ar bwyntiau, oedd eu bod nhw'n chwarae **gêm ail-gyfle** yn erbyn ei gilydd. Wynebodd Cymru Hwngari am yr eildro felly, a'r tro hwn, fe enillodd Cymru o ddwy gôl i un ac ymlaen â nhw i rownd yr wyth olaf!

Yn y gêm nesaf, roedd Cymru'n wynebu Brasil. Roedd hi'n gêm dynn, ond roedd gan Brasil chwaraewr ifanc disglair newydd yn eu tîm ac roedd un gôl gan y chwaraewr 17 oed hwnnw yn ddigon i ennill y gêm i Brasil ac anfon y Cymry adre o'r gystadleuaeth. A phwy oedd y chwaraewr ifanc hwnnw wnaeth sgorio'r gôl? Neb llai na Pelé, a aeth ymlaen i serennu mewn pedair cystadleuaeth Cwpan y Byd ac ennill tair ohonyn nhw – yr unig chwaraewr sydd wedi gwneud hynny **hyd heddiw**.

Cwestiynau:

- 1. _____
- 2. _____
- 3. _____
- 4. _____
- 5. _____
- 6. _____

2. Cymro yng Nghwpan y Byd

Dydy tîm Cymru ddim wedi llwyddo i gyrraedd twrnamaint Cwpan y Byd ers 1958, ond roedd un Cymro'n rhan o Gwpan y Byd 1978 yn Ariannin ac fe wnaeth **dipyn o enw iddo'i hun** yno.

Dyfarnwr oedd Clive Thomas ac ar y pryd, roedd yn cael ei ystyried yn un o ddyfarnwyr gorau'r byd. Roedd llawer yn meddwl mai fe fyddai'n dyfarnu yn y gêm **derfynol**.

Gêm gyntaf Thomas oedd gêm grŵp rhwng Brasil a Sweden. Sgoriodd y ddau dîm gôl yr un yn yr hanner cyntaf ac roedd y sgôr yn dal yn gyfartal wrth nesáu at ddiwedd y gêm. Gydag eiliadau ar ôl ar y cloc, cafodd Brasil gic gornel. Aeth cefnwr Brasil, Nelinho draw i'r gornel i gymryd y gic. Cymerodd dipyn o amser i baratoi a phan oedd yn barod i gymryd y gic, dwedodd y **lumanwr** wrtho am symud y bêl am ei fod wedi ei gosod yn rhy bell o'r gornel. Edrychodd Clive Thomas ar ei wats ac **ymhen hir a hwyr**, cymerodd Nelinho'r gic gornel. Â'r bêl yn yr awyr yn dod tuag at y chwaraewyr o flaen y gôl, chwythodd Thomas ei **chwiban** i ddod â'r gêm i ben a throdd i fynd tua'r ystafell newid. Tu ôl i'w gefn, cododd un o sêr Brasil, Zico i'r awyr a phenio'r bêl i'r rhwyd. Er gwaethaf protestiadau chwaraewyr a rheolwr Brasil, **mynnodd** Thomas nad oedd y gôl yn cyfrif a dwedodd eu bod nhw ar fai am wastraffu cymaint o amser cyn cymryd y gic gornel.

Aeth Clive Thomas yn ôl i'w westy yn Buenos Aires y noson honno. Fore trannoeth, daeth cnoc ar ddrws ei ystafell. Aelod o bwyllgor dyfarnwyr FIFA oedd yno i ddweud wrth Thomas ei fod yn cael ei anfon adre. Mae Thomas yn dal i **fynnu hyd heddiw** ei fod wedi gwneud y penderfyniad cywir yn y gêm honno.

Cwestiynau:

1. _____
2. _____
3. _____
4. _____
5. _____
6. _____

Cwpan y Byd 2014

Edrychwch ar y llun uchod o gêm rhwng Wrwgwái a'r Eidal yng Nghwpan y Byd 2014. Dych chi'n gwybod beth yw'r stori tu ôl i'r llun, neu dych chi'n gallu dyfalu? Beth oedd wedi digwydd? Beth ddigwyddodd nesaf? Beth oedd y cefndir?



Llun: Matthias Hangst/Getty Images

Sticeri *Panini*

Gwrandewch ar y darn o raglen radio Dylan Jones o Radio Cymru adeg Cwpan y Byd 2014 ble mae Phil Stead yn trafod casglu sticeri *Panini* Cwpan y Byd a thrafodwch y cwestiynau canlynol

1. Beth yw rôl neu arwyddocâd y canlynol:

Guiseppe a Benito	Mecsico, 1970
Modena, Yr Eidal	Ariannin 1978
1961	Garejys Texaco

2. Pan gafodd o feibion, beth oedd Phil yn edrych ymlaen at ei wneud hefo nhw? (2 beth)
3. Sut mae casglwyr sticeri yn debyg i chwaraewyr pêl-droed?
4. Pam **nad** yw plant heddiw yn dysgu cymaint o'r sticeri a'r albymau?

Mae'r bardd
Llion Jones
wedi ysgrifennu
cywydd i lyfrau
a sticeri *Panini*.
Yn *Panini Ddoe
a Heddiw*,
mae'n sôn am
sut mae gweld y
llyfrau sticeri yn
dwyn i gof
ddyddiau ei
blentyndod a'r
cyffro roedd yn
ei deimlo wrth
brynu'r sticeri
a'u cyfnewid.
Mae'n cofio
chwaraewyr
enwog o'r
Almaen, Brasil,
Ariannin, Yr
Eidal, Awstria
a'r Iseldiroedd
oedd ar sticeri
ei blentyndod.
Mae tinc o
dristwch wrth
i'r bardd gofio
nad oedd ei
arwyr o dîm
Cymru wedi llwyddo i
gyrraedd yr un

bencampwriaeth na chael lle yn y llyfrau sticeri, felly. Ond mae'r tristwch hwnnw wedi diflannu erbyn y
pennill olaf wrth iddo gasglu'r sticeri unwaith eto gyda Chymru wedi cyrraedd pencampwriaeth Ewro
2016 ac wedi ennill ei lle, o'r diwedd, yn llyfr sticeri Panini!

Panini Ddoe a Heddiw

Dwyn yn ôl ein doeau ni
wna enw gwâr Panini,
y rhain yw'r llyfrau hanes
gorau oll; ynddynt mae gwres
twrnameintiau caeau'r co'
a'r oed pan oedd pêl-droedio
yn amen ar bob munud
i un yn byw i gwpan byd.

Dymhorau'n iau, roeddwn i
yn caru'r llyfr sticeri,
hudol oedd ei hud a'i led,
pris pecyn oedd pres poced;
yn llanc, fe dalwn â llog
i gael un o'r rhai sgleiniog,
ias o amlen byd symlach,
aur y byd mewn sticer bach.

Â sypyn mawr i'w swopio
tua'r iard yr awn bob tro,
roedd *got, haven't got* yn gân
ar gyfer y fro gyfan,
ac ym marchnad anwadal
y dwylo chwim doedd dim dal
ai digon Rainer Bonhof
yn y sêl am Dino Zoff?

Y mae'r enwau mawr yno
yng nghyfri sticeri'r co',
yn creu tîm mae Socrates,
Tardelli, tri Ardiles,
Villa, Rossi a Fillol,
Hans Krankl, Mario Kempes, Krol;
gwelaf urddas mwstashtys
a graen y pyrm *Three Degrees*.

Ond llwm oedd fy albwm i
heb Yorath, Flynn a Berry,
arwyr heb le'n yr oriel,
arwyr balch byd Cymru'r bêl,
arwyr hud ym more oes
a daniodd freuddwyd einioes
am ran i Gymru ennyd
greu â'r bêl ar gaeau'r byd.

Dwyn i go' i gadw'n gall
yw siarad am oes arall,
ond yma 'Ngwynedd heddiw
un ifanc wyf yn y ciw
yn rhannu hen gyfrinach
wrth estyn am becyn bach
sy'n dwyn ias ein doeau ni
a ninnau'n wlad Panini.

Panini Ddoe a Heddiw, o *Bardd ar y Bêl*, Llion Jones, Cyhoeddiadau Barddas, 2016

Siaradwch

Dych chi wedi casglu sticeri *Panini* erioed? Wnaethoch chi lenwi'r albwm?

Dych chi'n casglu unrhyw beth, neu wedi casglu rhywbeth yn y gorffennol? Siaradwch am eich casgliad.

Dych chi wedi dilyn tîm pêl-droed Cymru? Pa effaith gafodd eu llwyddiant yn Ewro 2016 arnoch chi ac ar y wlad?

Beth sy'n dwyn atgofion o'ch plentyndod neu'ch ieuenctid i gof?